



Diweddariad Cymunedol

Hydref 2017



Yn y rhifyn hwn

- T1** Dod â'n Treftadaeth yn Fyw
- T2** Cerddwyr Anabl i Grwydro'r Parc
Llwyddiant Gadwraeth yn Allt yr Esgair
- T3** Cyrsiau Sgiliau Gwledig
Prosiect y Gwaith Powdr Gwn
- T4** Gwelliannau Gwlad y Sgydau
Cyhoeddiad Newydd am y Biblinell Nwy
- T5** Geogelcio ar gyfer Ysgolion
Cynllun Gwella Hawliau Tramwy
- T6** Rheoli Jac y Neidiwr
Newyddion o'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy
- T7** Digwyddiadau
- T9** Rhestr A-Y
Cysylltiadau'r Awdurdod

Helo a chroeso

i rifyn Hydref 2017 o'r Diweddariad Cymunedol gan
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Rydym yn gobeithio'n fawr y byddwch yn mwynhau dal i fyny gyda gwaith, newyddion a straeon o bob cwr o'r Parc Cenedlaethol.

Os hoffech chi gael eich rhoi ar ein rhestr bostio neu gyfrannu at rifynnau yn y dyfodol, cofiwch gysylltu â'r Tîm Cymunedau drwy'r A-Y o wasanaethau ar ddiwedd y cylchlythyr hwn. Mae'r cylchlythyr hwn hefyd ar gael ar-lein yn <http://www.bannaubrycheiniog.org/cymunedau/diweddariad-cymunedol/>
Diolch yn fawr.

John Cook Prif Weithredwr Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Dod â'n treftadaeth yn fyw

Dewch i ddysgu mwy am dreftadaeth
Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn
ystod y Diwrnod Treftadaeth sy'n cael ei
gynnal ar ddydd Sul, 15 Hydref yn Theatr
Brycheiniog, Aberhonddu.

Bydd y diwrnod yn rhan o ddathliadau'r Parc Cenedlaethol yn 60. Dyma eich cyfle i ddod ag atgofion o'r gorffennol yn fyw. Mae llawer o'r farn bod tirlun Bannau Brycheiniog yn dirlun naturiol sydd heb ei ddifetha, ond mewn gwirionedd mae wedi ei newid gan bobl dros filoedd lawer o flynyddoedd. Mae canrifoedd o dystiolaeth archeolegol i'w weld gydag adeiladau ac aneddiadau hanesyddol ynghyd â chylchoedd cerrig cynhanesyddol a siambrau claddu a bryngaerau o o'r Oes Haearn. Mae yma hefyd wersylloedd Rhufeinig, cestyll canoloesol a gweddillion diwydiannol o'r gorffennol i'w gweld ar hyd a lled y Parc. Bydd y rhaglen amrywiol o sgysiau a thrafodaethau'n canolbwyntio ar rai o'r safleoedd hyn, gan gynnwys Safle Treftadaeth y Byd ym Mlaenafon. Bydd Amelia Pannett o Cadw yn trafod cofnodi newid a rheoli henebion o fewn y tirlun diwydiannol pwysig hwn. Bydd Ruth Coulthard o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog hefyd yn adrodd hanes Gwaith Powdr Gwn Glyn-nedd a'i lwyddiant diweddar yn sicrhau Cyllid Treftadaeth y Loteri. Bydd yr arian hwn yn diogelu dyfodol un o'r safleoedd treftadaeth diwydiannol mwyaf arwyddocaol yn Ne Cymru. Bydd Mari Ffordde o Ymddiriedolaeth Castell y Gelli Gandryll hefyd yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf ar y prosiect i adfer ac adfywio Castell y Gelli Gandryll, prosiect fydd yn rhoi mynediad llawn i'r cyhoedd i'r safle am y tro cyntaf ers dros 800 o flynyddoedd.

Bydd siaradwyr eraill yn rhoi persbectif arbenigol ar wahanol brosiectau gan gynnwys amgueddfa newydd Brycheiniog, a gwaith adfer tŷ neuadd ganoloesol yn Llwyneclyn ger Llanddewi Nant Hodni gan y Landmark Trust.

Mae mynediad i'r digwyddiad, a gynhelir rhwng 9.30am a 4.30pm, yn rhad ac am ddim ond fe fydd angen tocyn. Am fanylion llawn o'r rhaglen ac i archebu tocynnau ewch i <http://www.brycheiniog.co.uk/cy>





Parti yn y Parc

Ar ddydd Sul, 30 Gorffennaf ymunodd tua 600 o bobl o bob rhan o'r Parc â staff a gwirfoddolwyr Awdurdod y Parc Cenedlaethol i ddathlu Pen-blwydd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn 60 oed. Ymunodd pawb yn y gweithgareddau mewn dau leoliad sef Canolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol ger Libanus a Pharc Gwledig Craig-y-nos. Cafwyd addurno caccennau bach, geogelcio, hela bwystfilod bach y dŵr, mynd ar deithiau cerdded gyda wardeiniaid a hyd yn oed cyfle i weld awyr y nos yn ystod y dydd ym mhlanageriwm Dark Sky Wales. Nodwyd yr achlysur gydag araith cyn torri a rhannu cacen ben-blwydd arbennig ar y ddau safle. Cafodd pawb ddiwrnod ardderchog o ddathlu!

Cymorth ar gael i leihau'r perygl o gwmpo a thorri esgryn

Mae'r tîm Cymunedau yn Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi bod yn gweithio gyda gweithwyr iechyd proffesiynol er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth o'r perygl o ddisgyn neu gwmpo, yn enwedig ymhlith pobl hŷn sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn y Parc Cenedlaethol.

Mae gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys rwydwaith o nyrsys, ffisiotherapyddion, fferyllwyr, therapyddion galwedigaethol a doctoriaid sy'n gweithio gyda phobl hŷn er mwyn lleihau'r perygl o gwmpo a thorri esgryn. Mae cymorth hefyd i wella iechyd pobl hŷn trwy wneud gwelliannau i'r cartref sy'n golygu eu bod yn gallu byw gartref yn ddiogel ac yn gysurus. Cysylltwch â Gofal a Thrwsio ym Mhowys ar 01686 620760 a gofynnwch am asesiad Cartref Iach.

Am fwy o wybodaeth ewch i <http://www.biapowys.cymru.nhs.uk/>

Wardeiniaid yn helpu Cerddwyr Anabl i grwydro'r Parc Cenedlaethol

Yn ystod mis Gorffennaf, trefnodd y grŵp Cerddwyr Anabl gyfres o chwech o deithiau cerdded fel rhan o'u hymweliad arbennig â Bannau Brycheiniog. Dyma'r ail dro i'r cerddwyr ymweld â'r Bannau yn dilyn ymweliad llwyddiannus arall dros 10 mlynedd yn ôl.

Bu Wardeiniaid Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cynorthwyo ar bedair o'u teithiau – dringfa i Fan Frynych, taith gerdded ar draws Mynydd

Illtyd i'r fryngaer, taith ar hyd hen ffordd y porthmyn o Libanus i Storey Arms a dringfa i fyny mynydd uchaf de Prydain sef Pen y Fan. Yn anffodus, fe gafwyd problemau technegol gydag un o'r cadeiriau olwyn ar y daith hon ond roedd y brwdfrydedd yn uchel! Teimlai pawb bod yr wythnos wedi bod yn antur llwyddiannus ac yn gyfle gwyh i gyfnewid syniadau am ymweliadau posibl eraill yn y dyfodol.

Am ragor o wybodaeth am y Cerddwyr Anabl a'u teithiau cerdded ym Mannau Brycheiniog ewch i <http://disabledramblers.co.uk/>



Llwyddiant mawr y gwaith cadwraethol yn Allt yr Esgair

Mae wardeiniaid, staff a gwirfoddolwyr Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog mewn partneriaeth â CADW, Cyfoeth Naturiol Cymru, Richard & Helen Roderick a ffermwyr lleol wedi bod yn brysus gyda gwaith cadwraethol ar fryngaer ysbennnydd Allt yr Esgair.



Wardeniaid dan hyfforddiant yn atgyweirio ffensys. Gwartheg yr ucheldir.

Y farn yw bod y gaer fawr hon sydd wedi'i lleoli ar grib rhwng Talybont a Llan-gors yn Nyffryn Wysg yn dyddio o gyfnod yr Oes Haearn (tua 800 C.C. - 74 O.C.). Nid oes cloddio archeolegol wedi bod ar y safle erioed, ond mae astudiaeth o'r gwrthgloddiau pridd yn awgrymu y gallai'r gaer fod wedi cael ei defnyddio am gyfnod hir a'i bod o bosibl wedi'i hatgyfnerthu nifer o weithiau. Yn ogystal â bod yn amddiffynfa, byddai'r safle wedi bod yn arwydd pendant o rym. Erbyn hyn, mae technoleg synhwyro o bell (remote sensing) yn ein helpu i werthfawrogi cymhlethdod y gwrthgloddiau pridd hyn.

Mae wyneb y ddaear yn rhoi clwbiau i ni ynglŷn â sut oedd y fryngaer yn gweithredu fel caer. Yn anffodus, mae llawer mwy o wybodaeth ynglŷn â defnydd a ffurfiant y fryngaer i'w cael fel nodweddion archeolegol bregus sydd wedi'u claddu o dan y ddaear. Oherwydd hyn, mae'r safle wedi'i ddiogelu'n gyfreithiol er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn goroesi ar gyfer heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Dros y blynyddoedd, mae rhedyn a choed wedi tyfu'n wyllt dros y safle. Felly mae gwaith cadwraethol wedi'i wneud er mwyn clirio ardal eang o goetir o'r ochr ddwyreiniol. Mae wardeiniaid dan hyfforddiant wedi atgyweirio ffensys ac mae'r Rodericks wedi sefydlu system bori gadwraethol gan ddefnyddio Gwartheg yr Ucheldir, er mwyn helpu i atal y llystyfiant rhag tyfu unwaith eto. Bydd y gwaith hwn yn helpu i ddiogelu'r Allt ac yn hwyluso mynediad i weld rhai o olygfeydd godidog dyffryn Wysg a Bannau Brycheiniog. Bydd hyn i gyd yn gwella profiadau'r bobl leol a'r ymwelwyr fel ei gilydd.



Aelodau newydd brwdfrydig yn ymuno ag Awdurdod y Parc Cenedlaethol

Yn dilyn etholiadau llywodraeth leol yn ystod mis Mai, fe benodwyd deg aelod newydd i Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Fe ychwanegwyd aelod arall yn ddiweddar i gynyddu'r nifer o aelodau newydd i un ar ddeg. Aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniadau ar ran yr Awdurdod. Maen nhw naill ai'n gynghorwyr o'r saith Awdurdod Lleol o fewn y Parc Cenedlaethol neu maen nhw'n cael eu penodi gan Lywodraeth Cymru.

Roedd pob un o'r aelodau newydd yn awyddus iawn i gael eu penodi ac mae eu hymrwymiad a'u brwdfrydedd yn wirioneddol galonogol, ynghyd â'u hystod eang o brofiad a sgiliau. Yn ddiweddar, maen nhw wedi ymgymryd â rhaglen anwytho lawn, rhaglen a ddatblygwyd ac a gyflwynwyd i safon uchel gan staff y Parc Cenedlaethol. Mae'r adborth o'r anwythiad wedi bod yn gadarnhaol iawn ac mae'r aelodau wedi croesawu'r cyfle i gwrdd â swyddogion a dysgu am eu gwaith.

Am fwy o wybodaeth am yr aelodau newydd ewch i: <https://governance.beacons-npa.gov.uk/mgMemberIndex.aspx?bcr=1&LLL=1>



Arddangosfa Pobl Ddiemwnt

Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn lle hardd iawn sy'n llawn pobl ardderchog. I ddathlu 60 mlynedd ers creu'r Parc yn 1957, comisiynodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog y ffotograffydd lleol Billie Charity i dynnu lluniau rhai o'r bobl hynny sy'n gwneud y Parc yn lle mor arbennig. Mae'r dyddiadau a'r lleoliadau ar gyfer yr arddangosfa i'w gweld ar y dudalen ddigwyddiadau.

Grwpiau cymunedol yn elwa o gyrsiau sgiliau gwledig

Mae grwpiau o bob rhan o Dde Cymru yn dysgu sgiliau newydd ar gyrsiau a gynhelir gan y Parc Cenedlaethol ac a ddarperir gan dîm Cymunedau Cynaliadwy Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

Mae'r cyrsiau Sgiliau Gwledig hyn wedi'u hachredu gan Agored Cymru ac yn cynnwys dysgu sgiliau coetir ymarferol, sgiliau cadwraeth, adnabod coed, arolygu bywyd gwylt a rhoi cynnig ar weithgareddau awyr agored. Mae sefydliadau fel Gwalia (cymorth gyda thai), MIND Aberhonddu a'r Cylch yn ogystal â Merthyr Housing wedi cael arian ar gyfer y cyrsiau.

Yn ôl Delyth Thomas o Gwalia: "Mae'r grant gawson ni gan y Gronfa Loteri Fawr yn golygu ein bod yn gallu gweithredu'r prosiect hwn mewn partneriaeth ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a fydd, gobeithio, yn golygu bod cleientiaid yn gallu gwirfoddoli gyda'r Parc a hyrwyddo entrepreneuriaeth gymdeithasol yn y dyfodol."

Dylai unrhyw grwpiau cymunedol sydd â diddordeb yn y prosiect Sgiliau Gwledig gysylltu â Francesca Bell, Swyddog Datblygu Cymunedol ar francesca.bell@beacons-npa.gov.uk neu ffonio 01874 624437

Cyfranogwyr o Gwalia yn cymryd rhan yn y cwrs Sgiliau Coetir Ymarferol.



Prosiect y Gwaith Powdr Gwn ar fin dechrau

Wedi tair blynedd o gynllunio manwl, mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri wedi rhoi arian er mwyn gwarchod a dathlu adfeilion un o drysorau treftadaeth y Parc.

Mae'r prosiect £1m hwn yn un o'r prosiectau cadwraeth mwyaf i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ymgymryd ag ef erioed. Y nod yw gwarchod adfeilion peryglus hen Weithfeydd Powdr Gwn Glyn-nedd ym Mhontneddfechan a hefyd adfer y coetir naturiol mewn ardal sy'n enwog yn rhyngwladol am ei bioamrywiaeth. Bydd digon o gyfleoedd i gymryd rhan yn y prosiect a gweld y gwaith sy'n mynd rhagddo.

Ewch i <http://www.bannaubrycheiniog.org/cymunedau/prosiectau-presennol/> neu e-bostiwch explosivetimesproject@beacons-npa.gov.uk.



Dyma Martin Coleman – Y Swyddog Datblygu Gwirfoddolwyr newydd

Mae Martin Coleman wedi ymuno â Staff y Parc Cenedlaethol fel Swyddog Datblygu Gwirfoddolwyr. Mae Martin yn dod o Swydd Derby lle dechreuodd ddysgu Cymraeg a bellach mae'n rhugl! Mae'n falch iawn o symud i Gymru a chael ei amgylchynu gan y Gymraeg.

Mae gan wirfoddolwyr ran hanfodol bwysig yn y gwaith o ofalu am y Parc Cenedlaethol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf fe gyfrannodd amrywiaeth eang o wirfoddolwyr dros ddeng mil o oriau o waith i gynnal a chadw a gwella'r Parc a hynny ym mhob tywydd. Er bod llawer o'r gweithgareddau gwirfoddol yn waith awyr agored ymarferol, mae cyfle hefyd i'r rhai llai ymarferol neu'r rhai hynny sydd ddim yn hoffi gwlychu i gyfrannu. Os oes gennych ddi-ddordeb mewn hanes, treftadaeth neu'r amgylchedd lleol yna dyma eich cyfle chi i wirfoddoli ... a mwynhau'r un pryd!

Os ydych chi'n gallu ymrwymo i o leiaf 10 diwrnod y flwyddyn o waith gwirfoddol, yna cysylltwch â Martin ac fe fydd yn ceisio dod o hyd i leoliad ar eich cyfer. Cysylltwch â Martin ar 01874 620451 neu martin.coleman@beacons-npa.gov.uk

Cynhadledd Genedlaethol y Daearegwyr i ymweld â Geoparc Fforest Fawr

Yn yr hydref bydd Geoparc Fforest Fawr yn hynod o falch o groesawu cynrychiolwyr o Gymdeithas y Daearegwyr sydd, am y tro cyntaf ers sawl blwyddyn, yn cynnal eu cynhadledd flynyddol yng Nghymru. Maen nhw'n cyfarfod ar 21 – 22 Hydref yn yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd. Bydd y cynrychiolwyr yn mynd ar ymweliad gwaith maes i'r Geoparc, ynghyd â Phenrhyn Gŵyr, ar y dydd Sul. Ar ôl eu croesawu i'r safle ym Mharc Gwledig Craig-y-nos, a fydd yn ganolbwynt newydd i'r Geoparc yn y dyfodol, bydd cynrychiolwyr yn cael eu cyflwyno i ddaeareg ac archaeoleg ddiwydiannol Cribarth a Phenwyllt.

Mae mwy o wybodaeth am y digwyddiad arbennig hwn ar wefan Geoparc yn <http://www.geoparcfforestfawr.org.uk/addysg-ac-ymchwil/taith-cd-2017/>

Dewiswch eich taith gerdded ddelfrydol yng Ngwlad y Sgydau

Mae panel gwybodaeth newydd arloesol wedi'i baratoi er mwyn helpu ymwelwyr â Gwlad y Sgydau i fwynhau diwrnod pleserus o gerdded sy'n addas i'w gallu a'u disgwyliadau.

Mae'r system o ddewisiadau sy'n cynnwys cod lliwiau, yn nodi pa mor gyffrous yw'r daith, pa mor brysur mae'n debygol o fod, hyd y daith a beth yw cyflwr y tir dan draed. Mae'r system i'w gweld ar banel newydd unigryw ym mhentref Pontneddfechan sydd wedi ei gynnllunio'n arbennig er mwyn ychwanegu at ddyluniad cyfoes y cyfleusterau cyhoeddus sydd yng nghanol y pentref. Dyma fan cychwyn poblogaidd ar gyfer crwydro Gwlad y Sgydau.

Bydd y panel yn galluogi ymwelwyr i ddewis llwybr addas, gwybod sut i gyrraedd yno, ble i barcio a ble mae'r cyfleusterau agosaf. Mae'r panel hefyd yn cynnwys negeseuon am gadw'n ddiogel, beth i'w wneud mewn argyfwng a sut i fwynhau Gwlad y Sgydau mewn ffordd gynaliadwy.

Mae'r cynllun hwn yn rhan o nifer o welliannau i wella profiadau ymwelwyr sy'n ymweld â'r Parc. Mae'r gwaith hwn wedi'i gyflawni gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol mewn partneriaeth â Chyngor Castell-nedd Port Talbot a Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae gwelliannau eraill yn cynnwys paentio'r arwyddion ar y gatiau i lwybr Elidir ynghyd â darparu gwybodaeth sy'n hyrwyddo'r llwybr sain sy'n cyflwyno chwedl Elidir a Gwladus.



Y panel newydd y tu allan i'r toiledau cyhoeddus, Pontneddfechan

Disgyblion Ysgol Uwchradd Aberhonddu yn lansio cyhoeddiad am y biblinell nwy

Mae naw disgybl o Ysgol Uwchradd Aberhonddu wedi lansio cyhoeddiad newydd, 'A Line Through Time', mewn gwasanaeth arbennig yn yr ysgol.

Mae'r llyfryn yn llawn gwybodaeth am y darganfyddiadau archeolegol a wnaed wrth osod y biblinell nwy sy'n mynd drwy Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Ymunodd Nigel Blackmore â'r disgyblion, Uwch Geidwad Oriel Gelf ac Amgueddfa Brycheiniog, a daeth â gwayw-fwyell 4000 mlwydd oed, darganfyddiad prin o'r Oes Efydd a ddarganfuwyd yn ystod gwaith adeiladu'r biblinell wrth ffos gylch, ger Trecastell, gydag ef. Bu disgyblion blwyddyn saith ac wyth yn gweithio gyda staff yr awdurdod i ymchwilio a llunio cyflwyniad diddorol.

Dywedodd Mr R Broadbridge, Pennaeth Ysgol Uwchradd Aberhonddu a fynychodd y cyflwyniad: "Mae rhoi cyfle i ddisgyblion ddysgu am hanes y lle maent yn byw ynddo, a'u hannog i rannu'r wybodaeth hynny wedi bod yn brofiad gwerth chweil i bawb."


Dywedodd Mr Julian Stedman, Hyrwyddwr Aelodau Treftadaeth Ddiwylliannol a Hanesyddol Awdurdod y Parc Cenedlaethol: "Rwy'n falch fod y darganfyddiadau ers gosod y biblinell bellach wedi'u cyhoeddi ac ar gael i bawb yn y llyfryn darluniadol hwn. Mae nifer o gymunedau o fewn y Parc Cenedlaethol yn awyddus i wybod beth a ddarganfuwyd wrth wneud y gwaith ac mae'n bwysig fod y wybodaeth hon ar gael iddyn nhw."



Mae copïau o'r llyfryn ar gael am ddim yng Nghanolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol ger Libanus, Parc Gwledig Craig-y-nos ac ym Mhrif Swyddfeydd y Parc Cenedlaethol yn Aberhonddu, tra bo cyflenwad.

Hefyd gellir eu gweld a'u lawrlwytho am ddim o wefan Cotswold Archaeology <http://www.cotswoldarchaeology.co.uk/publications-2/popular-publication/llinell-amser-a-line-through-time/>

Disgyblion Ysgol Uwchradd Aberhonddu yn lansio'r llyfryn newydd



Brecon Beacons, Myths & Legends

Gallwch brynu *Brecon Beacons, Myths & Legends* ar-lein yn www.beacons-npa.gov.uk/shop, yng Nghanolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol ger Libanus, Canolfan Ymwelwyr y Fenni, Canolfan Ymwelwyr Llanyddydri ac mewn siopau llyfrau lleol a siopau annibynnol eraill. Mae taith gerdded fer yn cyd-fynd â phob stori, sy'n rhoi cyfle i chi ddilyn ôl troed y cymeriadau i berfeddion brynau a mynyddoedd Cymru.

Mae'r teithiau cerdded i'w gweld ar www.breconbeacons.org.

Adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol i ddechrau fis Rhagfyr

Mae gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol Gynllun Datblygu Lleol (CDLI) sy'n nodi polisiâu a chynigion i lywio datblygiad yn y Parc Cenedlaethol a gwarchod safonau uchel ar gyfer cynnal amgylchedd y Parc yr un pryd. Cafodd y CDLI presennol ei fabwysiadu yn 2013 ac mae disgwyl i'r Awdurdod ddechrau'r adolygiad ohono ym mis Rhagfyr 2017. Un o'r pethau cyntaf sydd yn rhaid ei wneud yw paratoi 'Cytundeb Darparu' gyda Llywodraeth Cymru. Bydd y Cytundeb Cyflawni yn pennu amserlen ar gyfer adolygu'r CDLI a bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod cyn gynted ag y caiff ei fabwysiadu. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn ei le yn gynnar yn 2018.

Os hoffech dderbyn mwy o wybodaeth am y broses adolygu CDLI, cysylltwch â Strategy@beacons-npa.gov.uk neu ffoniwch 01874 620431.

Geogelcio yn llwyddiant mawr gyda disgyblion sy'n ymweld â'r Parc Cenedlaethol

Geogelcio yn llwyddiant mawr gyda disgyblion sy'n ymweld â'r Parc Cenedlaethol

Eleni, geogelcio yw un o'r gweithgareddau mwyaf poblogaidd ar gyfer ysgolion sydd ar ymweliad addysgol â Thîm Addysg Awdurdod y Parc. Mae'r disgyblion yn mynd ar 'helfa drysor' gan ddefnyddio offer GPS, sy'n eu harwain at focsych bach o 'drysor' neu 'gelc'. Mae llwybrau geogelcio yn y tair canolfan addysg - Canolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol, Parc Gwledig Craig-y-nos a Chanolfan Astudio YHA Danywenallt ac mae'r gweithgaredd yn aml yn cael ei gyfuno â sgiliau map a chwmpawd ar gwrs Chwilotwyr y Parc Cenedlaethol.

Yn ôl y swyddog Addysg Hayley Sharp: "Mae'r disgyblion yn mwynhau hela am gelc a dysgu sut i ddefnyddio'r offer GPS. Hefyd mae'r gweithgaredd hwn yn cyfrannu at elfen Cymhwysedd Digidol y cwricwlwm y mae pob ysgol bellach yn ei addysgu ac maen nhw'n cael profiad ac yn dysgu am y Parc Cenedlaethol yr un pryd!"

Am fwy o wybodaeth a chyswrt eraill ewch i <http://www.bannaubrycheiniog.org/dysgu/> neu ffoniwch y tîm Addysg ar 01874 624437



Geogelcio ar Fynydd Illtud

Mae angen eich barn ar y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi dechrau ar y broses o adolygu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (RoWIP) Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Lluniwyd y Cynllun gyntaf yn 2007 a dyma'r unig Gynllun i'w greu gan Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru.

Mae'n ymdrin â llwybrau troed, llwybrau ceffyl a chilffyrdd cyfyngedig yn y Parc Cenedlaethol.

- i ba raddau y mae hawliau tramwy lleol yn cwrdd ag anghenion y cyhoedd ar hyn o bryd ac ar gyfer y dyfodol;
- y cyfleoedd y mae hawliau tramwy lleol yn eu darparu ar gyfer ymarfer corff a mathau eraill o hamdden awyr agored a mwynhau'r ardal;
- hygyrchedd hawliau tramwy lleol i bobl ddall neu rannol ddall ac eraill sydd â phroblemau symudedd.

Rhaid i'r adolygiad hefyd:

- werthuso i ba raddau y mae'r RoWIP blaenorol wedi'i gyflawni;
- gwerthuso cyflwr presennol y rhwydwaith a'r cofnod ohono;
- archwilio cyfleoedd i gyfrannu tuag at amcanion Teithio Llesol a Llesiant ac i ddarparu cynlluniau a blaenoriaethau eraill.

Mae copi o'r cynllun cyfredol ar gael ar:

<http://www.bannaubrycheiniog.org/amgylchedd/mynediad-a-hawliau-tramwy/cynllun-gwella-hawliau-tramwy/>

Bydd yr Awdurdod yn cynnal sawl ymgynghoriad yn ystod yr haf a'r hydref. Bydd hefyd yn ceisio ymgynghori â chymaint o bobl a sefydliadau â phosib. Os hoffech gymryd rhan mewn ymgynghoriad yna cysylltwch â row@beacons-npa.gov.uk neu 01874 624437. Cofiwch mai'r Cynllun hwn fydd yn pennu cyfeiriad rheolaeth hawliau tramwy a darpariaeth mynediad Awdurdod y Parc Cenedlaethol am y 10 mlynedd nesaf. Mae derbyn eich barn chi yn hollbwysig i lwyddiant y broses.

Adrodd am Faterion Hawliau Tramwy

Gellid sôn am unrhyw faterion yn ymwneud â hawliau tramwy fel difrod i lwybrau troed, camfeydd neu fynegbyst wrth ein Swyddog Hawliau Tramwy, Eifion Jones:

eifion.jones@beacons-npa.gov.uk
neu ffoniwch 01874 620452

Cymhorthfa Gynllunio

Am gyngor ar ddatblygiadau i ddeiliaid tai ac ymholiadau cyffredinol, bob dydd Mercher, o 9.30 - 12.00 yb a 1.30-3.00 yb yn Swyddfeydd y Parc Cenedlaethol, Aberhonddu. Mae apwyntiadau ar gael am gyfnodau o 30 munud, a rhaid eu harchebu ymlaen llaw.

Am apwyntiad neu unrhyw ymholiad cynllunio cyffredinol ffoniwch 01874 620431 os gwelwch yn dda.

Ymholiadau am y Gronfa Datblygu Cynaliadwy

I gael mwy o wybodaeth a chyngor am y Gronfa hon cysylltwch naill ai â

Helen Roderick
neu Ceri Bevan ar 01874 620471

Ebostiwrch
helen.roderick@beacons-npa.gov.uk
ceri.bevan@beacons-npa.gov.uk

Dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau grant 2017

- 8 Tachwedd
- 18 Rhagfyr

Gwirfoddolwyr yr Uwchdiroedd wrth eu gwaith!

Mae Gwirfoddolwyr Uwchdiroedd y Parc Cenedlaethol yn helpu'r tîm Ecoleg i reoli Jac y Neidiwr (*Himalayan Balsam*) yng Nghwm Bwchel yn y Mynyddoedd Du.

Mae Jac y Neidiwr yn rhywogaeth ymledol sydd wedi llwyddo i sefydlu ei hun ar hyd y llwybr sy'n arwain i lawr at y nant. Mae'r planhigyn rhyfeddol hwn yn ffynnu ar draul rhywogaethau brodorol eraill gan ddwyn lle, golau a pheillwyr. Fel rhan o'r gwaith cadwraeth, mae Gwirfoddolwyr yr Uwchdiroedd wedi dechrau cynllun 3 blynedd i helpu rheoli Jac y Neidiwr yng Nghwm Bwchel naill ai trwy dynnu'r planhigyn o'r ddaear cyn iddo hadu neu ei dorri yn ei fôn. Mae'n waith anodd ond gwerth chweil - mae edrych ar ddam o dir yr ydych wedi'i glirio yn rhoi teimlad o falchder mawr i chi, gan wybod eich bod wedi atal miloedd o hadau rhag egino.

Mae Gwirfoddolwyr yr Uwchdiroedd yn gweithio ar ddydd Mercher, dydd Gwener a dydd Sadwrn ar raglen helaeth o gynnal a chadw llwybrau a gwaith cadwraeth hanfodol yn y Mynyddoedd Du a Chanol Bannau Brycheiniog. Os hoffech ymuno â'r grŵp cyfeillgar a brwdfrydig hwn, yna cysylltwch â'n Swyddog Datblygu: Gwirfoddolwyr, Martin Coleman ar 01874 620451 martin.coleman@beacons-npa.gov.uk neu Jason Rees, Cydlynnydd Prosiect 07854 997 550 jason.rees@beacons-npa.gov.uk



Grantiau'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy Nawr ar Gael

Os yw eich cymuned o fewn, neu ar ffiniau'r Parc Cenedlaethol, ac yn meddu ar syniad ar gyfer prosiect sy'n cefnogi cynaliadwyedd, mae gwybodaeth ar gael yn <http://www.bannaubrycheiniog.org/cymunedau/cynaliadwyedd-2/y-gronfa-datblygu-cynaliadwy/>. Gweler hefyd y manylion ar y panel ochr.

Bu'r prosiectau canlynol yn llwyddiannus yn eu cais am grantiau yn ddiweddar:-

- Cynllun Prentisiaeth Big Pit - Bydd y grant yn cefnogi penodiad dau brentis newydd yn Big Pit, a hynny'n hanfodol bwysig er mwyn sicrhau hyfywra tymor hir y profiad tanddaearol. Bydd y prentisiaid yn dysgu sgiliau mwyngloddio, yn dysgu am iechyd a diogelwch yn y lofa ac yn gallu arwain teithiau tywys, gan roi cipolwg realistig i ymwelwyr o fywyd glöwr.
- Rheolwr Tref Aberhonddu - rhoddir cefnogaeth i Siambr Fasnach Aberhonddu i gynorthwyo gyda'r gwaith o adfywio'r dref gan ddefnyddio sgiliau rheolwr canol y dref.
- Dyfodol ein Pobl - mae'r grant yn cefnogi Asiantaeth Ynni Hafren Gwy i gynnal y prosiect ynni cynaliadwy hwn mewn ysgolion o fewn neu ar ffiniau'r Parc Cenedlaethol. Y nod yw lleihau defnydd ynni pob ysgol a chynig cyfle i bobl ifanc ddysgu sgiliau trosglwyddadwy, datblygu mwy o ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol a'r cyfleoedd cyflogaeth amrywiol sydd ar gael o fewn yr 'economi werdd'.
- Mae Calon Cymru yn derbyn cymorth i gydlynu gwybodaeth a threfnu busnes rhwng Calon Cymru a'r pentrefi a'r trefi ar hyd llinell Calon

Cymru. Mae rhwydwaith Calon Cymru yn gwmni buddiant cymunedol gyda'i ffocws ar adfywio gwledig cynaliadwy.

- Mae Criw Craggy, Cyfeillion Craig-y-nos yn derbyn cymorth i gynnal hyfforddiant y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol er mwyn cynnal, datblygu a gwella cyfleusterau, a'r cyfleoedd dysgu ac allgymorth yn y Parc Gwledig.
- Mae Brecon Jazz Legends, dan arweiniad Clwb Jazz Aberhonddu, yn derbyn cymorth i olrhain hanes yr ŵyl ers y cychwyn cyntaf. Bydd gwahoddiad i'r gymuned roi adborth ar yr ŵyl a'i dyfodol.
- Mae Biwro Gwirfoddol Aberhonddu wedi derbyn cymorth i sefydlu Caffi Atgyweirio Aberhonddu er mwyn annog pobl i ddysgu sut i drwsio eu heiddo yn hytrach na'u taflu. Bydd hyn yn lleihau gwastraff, yn hybu sgiliau trwsio ac yn cryfhau cydlyniant cymdeithasol.
- Mae Hay Markets Ltd wedi derbyn cymorth i lwyfannu Gŵyl Fwyd Aberhonddu sy'n rhoi llwyfan i gynhyrchwyr bywyd lleol i gynig eu cynnyrch.

Eisiau ystafell gyfarfod yn Aberhonddu?

Mae'r canlynol ar gael i'w llogi gennym:

- Ystafell gynhadledd
- Ystafell Fideo-gynadledda
- Ystafell Aelodau

Gwasanaeth Arlwyio ar gael
Am fanylion cysylltwch â'r
Dderbynfa 01874 624437
neu edrychwch ar
<http://www.bannaubrycheiniog.org/yr-awdurdod/llogi-ystafell/>

Pabell Fawr Gymunedol Ar Gael

Mae cynllun benthg y Pabell Fawr
Gymunedol yn cynnig cyfle i grwpiau,
ysgolion, elusennau a sefydliadau
dielw eraill o fewn y Parc
Cenedlaethol ddefnyddio'r Pabell
Fawr Gymunedol 20'x30' yn eu
digwyddiadau lleol. Gofynnir am rodd.

I gael ffurflenni archebu,
cysylltwch â Ceri Bevan ar
01874 620471
ceri.bevan@beacons-mpa.gov.uk

Gweddarllediadau

Mae holl gyfarfodydd yr Awdurdod
ar gael i'w gweld trwy ficrowefan ein
gweddarllediadau. Ewch i:

<http://www.bannaubrycheiniog.org/yr-awdurdod/gweddarlledu/>

Digwyddiadau Diwedd Awst- Rhagfyr 2017

I weld manylion a rhestr estynedig o weithgareddau a digwyddiadau yn y
Parc Cenedlaethol ewch i <http://www.breconbeacons.org/?lan=cy>



Digwyddiadau yng Nghanolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol

Gellir archebu tocynnau drwy'r wefan uchod neu drwy gysylltu â'r Ganolfan Ymwelwyr ar
01874 623366

26 i 28 Awst

Ffair Haf a Sioe Bebyll 'Go Outdoors'

Bwyd lleol, celfyddydau a chrefftau, gweithgareddau plant a cherddoriaeth fyw. 10yb-5 yp.

9 a 10 Medi

Cwrs Efydd Diogelwch ar y Bryniau / Llywio NNAS

Pris: £115 y person - nifer cyfyngedig ar gael. Mae'n rhaid archebu lle. 9yb-5yp.

7 a 8 Hydref

Cwrs Efydd Diogelwch ar y Bryniau / Llywio NNAS

Manylion fel uchod.

14 Hydref

Digwyddiad Gwyllo'r Sêr yng Nghanolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol

Tocynnau yn £9. Mae'n rhaid archebu lle. 6.30 yh.

11 a 12 Tachwedd

Cwrs Efydd Diogelwch ar y Bryniau / Llywio NNAS

Manylion fel uchod.

8 Rhagfyr

Digwyddiad 'Syllu ar y Sêr' Cawod Sêr Geminid.

Tocynnau yn £15.00 sy'n cynnwys cawl a rôl fara. Mae'n rhaid archebu lle. Dechrau 7yh.

Mae ein Canolfan Ymwelwyr a'r Parc Gwledig ar agor bob dydd o'r flwyddyn ac eithrio Dydd Nadolig. Mae mynediad am ddim ond codir tâl am barcio.

Canolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol

Libanus, ger Aberhonddu
LD3 8ER

- Gwybodaeth
- Ystafelloedd Te a Bwyty
- Siop grefft
- Toiledau
- Hurio Ystafelloedd
- Priodasau

Ffôn: 01874 623366
npvc@beacons-npa.gov.uk
http://www.breconbeacons.org/12_visitor_centre?lan=cy

Parc Gwledig Craig-y-nos

Pen-y-cae, Cwm Tawe SA9 1GL

- Ystafelloedd Te a Bwyty - Changing Seasons
Ffôn: 01639 731498
- Toiled i bobl anabl gyda lle i newid clwt y baban 24 awr
- Hurio ystafelloedd
- Gofod arddangos
- Canolfan grefft
- Stiwdio wydr
- Stiwdio a chysiau ffotograffiaeth

Ffôn: 01874 624437
enquiries@beacons-npa.gov.uk
http://www.breconbeacons.org/6_craig_y_nos?lan=cy

Digwyddiadau ym Mharc Gwledig Craig-y-nos

16 Medi

Gŵyl Adrodd Straeon

Storiau, cerddoriaeth, syrcau a llawer mwy i'r teulu. £5 oedolion. Plant am ddim. 11.0yb-8yn.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i <https://www.facebook.com/criwcraggy/>

Cyrsiau hyfforddiant ci

3 Medi

'Rhowch y siglad yn ôl yn y siwrnai'. 10 yb-3 yp. £50

30 Medi

'Cyfarthwyr a Rhagwthwyr Anhysbys' 10yb-3yp. £65

8 Hydref

'Trywyddu Dyn' 10yb-3yp. £40

Cysylltwch â Teresa ar dogwarts.wales@gmail.com. Ffôn: 01874 636785

Diwrnod Treftadaeth Bannau Brycheiniog (gwelwch tudalen 1)

15 Hydref

Theatr Brycheiniog, Aberhonddu. 9.30yb-4.30yp

Mynediad am ddim. Mae'n rhaid archebu lle.



Arddangosfa Pobl Ddiemwnt (gwelwch tudalen 3)

Dyddiadau a lleoliadau'r daith

Mae mynediad i bob un am ddim ond gwiriwch yr amserau agor cyn ymweld

i 28 Awst

Oriel Llyfrgell, Aberhonddu.

1 Medi – 27 Medi

Canolfan y Mynydd Du, Brynaman Uchaf,

30 Medi – 29 Hydref

Neuadd Les, Ystradgynlais, (ymweliadau drwy apwyntiad yn unig)

30 Medi – 29 Hydref

Oriel Glan-yr-afon, Tŷ'r Ysgol, Ystradgynlais,

2 Tachwedd – 19 Tachwedd

Theatr Brycheiniog, Aberhonddu.

20 Chwefror – 13 Mawrth

Canolfan Gwybodaeth ac Adnoddau Crucywel



DAN SANTILLO

A-Y Eich Awdurdod

Eich canllaw i gysylltu â'r Awdurdod am wybodaeth neu wasanaethau

Gwasanaeth neu Dîm	Prif Gyswllt/Swyddogion	Manylion Cyswllt	Rhif ffôn
Ymholiadau cyffredinol	Derbynfa	enquiries@beacons-npa.gov.uk	01874 624437
Addysg, Dehongli a Gwybodaeth	Derbynfa	enquiries@beacons-npa.gov.uk	01874 624437
Adnoddau Dynol	Liz Lewis	elizabeth.lewis@beacons-npa.gov.uk	01874 620436
Canolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol, 'Y Ganolfan Fynydd', Libanus	Gwasanaethau Ymwelwyr	npvc@beacons-npa.gov.uk	01874 623366
Cyfarwyddwr Cefn Gwlad a Rheoli Tir	Julian Atkins	jean.packer@beacons-npa.gov.uk	01874 620469
Cyfathrebu	James Williams	communications@beacons-npa.gov.uk	01874 620406 01874 620420
Cyfarwyddwr Cynllunio	Christopher Morgan	danielle.french@beacons-npa.gov.uk	01874 620428
Cymunedau cynaliadwy	Ceri Bevan/Helen Roderick Francesca Bell	communities@beacons-npa.gov.uk	01874 624437
Cyllid	Elaine Standen	elaine.standen@beacons-npa.gov.uk	01874 620467
Cynllun Rheoli	Matt Scanlon	matthew.scanlon@beacons-npa.gov.uk	01874 620465
Ecoleg	Brad Welch	bradley.welch@beacons-npa.gov.uk	01874 620411
Gwasanaethau Democrataidd a Swyddfa	Julia Gruffydd	julia.gruffydd@beacons-npa.gov.uk	01874 620400
Geoparc Fforest Fawr	Alan Bowring	alan.bowring@beacons-npa.gov.uk	01874 620415
Gorfodi Cynllunio	Kathy Jenkins	enforcement@beacons-npa.gov.uk	01874 620416
Gweinyddiaeth y Gwasanaethau Cynllunio	Jane Pashley	planning.enquiries@beacons-npa.gov.uk	01874 620422
Gwirfoddoli	Martin Coleman	martin.coleman@beacons-npa.gov.uk	01874 620451

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian
Aberhonddu, Powys LD3 7HP

<http://www.bannaubrycheiniog.org/>

Cadwch mewn cysylltiad â'r diweddara

Erbyn hyn mae hyd yn oed mwy o ffyrdd i gael gwybod y newyddion a'r wybodaeth ddiweddara gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol.



Gallwch drydar â ni ar @croesobannaub neu â Thîm ein Wardeniaid ar @BBParkWarden



Dilynwch ni drwy Facebook www.facebook.com/bannaubrycheiniog



Gweler ein Youtube Channel Videos www.youtube.com/user/BreconBeaconsNPA



www.instagram.com/breconbeacons

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian
Aberhonddu, Powys LD3 7HP

<http://www.bannaubrycheiniog.org/>

ffotograffau © APCBB

A-Y Eich Awdurdod

Eich canllaw i gysylltu â'r Awdurdod am wybodaeth neu wasanaethau

Gwasanaeth neu Dîm	Prif Gyswilt/Swyddogion	Manylion Cyswilt	Rhif ffôn
Hawliau Tramwy	Eifion Jones	eifion.jones@beacons-npa.gov.uk	01874 620452
Parc Gwledig Craig-y-nos Pen-y-Cae	Derbynfa	enquiries@beacons-npa.gov.uk	01874 624437
Prif Weithredwr	John Cook	jean.packer@beacons-npa.gov.uk	01874 620469
Strategaeth a Pholisi Cynllunio	Matt Scanlon	matthew.scanlon@beacons-npa.gov.uk	01874 620465
Technoleg Gwybodaeth	Paul Funnell	paul.funnell@beacons-npa.gov.uk	01874 620459
Treftadaeth	Alice Thorne	alice.thorne@beacons-npa.gov.uk	01874 620418
	Janet Poole	janet.poole@beacons-npa.gov.uk	01874 620413
Twristiaeth gynaliadwy	Richard Tyler	richard-tyler@beacons-npa.gov.uk	01874 620405
Y Gwasanaeth Wardeniaid	Judith Harvey	judith.harvey@beacons-npa.gov.uk	07854 997510



DAN SANTILLOR